AMGUEDDFA CYMRU

# Chwilfrydig am Deinosoriaid Rhithiol

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i'n **Gweithdy Chwilfrydig am Deinosoriaid Rhithiol** yn fuan.



Dyma rai syniadau a weithgareddau i'w gwneud ymlaen llaw, i helpu'r disgyblion wneud y gorau o'r gweithdai:

## Gwyliwch ein fideo cyflwyno Oriel Esblygiad Cymru

https://youtu.be/j_VrhspV3_E

Dysgu mwy am y deinosoriaid yn yr oriel Esblygiad Cymru a chwrdd â Lucy, un o'n palaeontolegwyr.

Fersiwn BSL: https://youtu.be/-xqqeg7hNFM

## Ewch ar daith rithwir drwy Oriel Esblygiad Cymru yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

https://my.matterport.com/show/?m=9D1eaaBaiNB

Crwydrwch yr oriel a chyfarfod y deinosoriaid! Ar ôl y daith, trafodwch gyda'r dosbarth/grŵp.

**Sut mae ffosil yn cyrraedd yr Amgueddfa?**

# Beth i'w ddisgwyl:


Bydd un o'n hwyluswyr yn gweithio gyda'r disgyblion a'u helpu i ddod yn balaeontolegwyr ifanc. Byddan nhw'n datrys cyfres o bosau a gweithgareddau er mwyn dysgu am fywydau deinosoriaid.

Gyda'r sgiliau yma, gallan nhw astudio'r deinosor Cymreig – Dracoraptor! Bydd y disgyblion yn dysgu sut gafodd y deinosor ei ganfod, sut oedd yn byw, beth fyddai'n ei fwyta a sut olwg oedd arno. Mae'r gweithdy yn cyflwyno pwysigrwydd sgiliau ymholi a dulliau gwyddonol.

**Bydd y gweithdy rhwng 45 munud ac awr o hyd.**

## Gweithdy rhyngweithiol yw hwn, a bydd yr hwylusydd yn holi ac ateb cwestiynau.

## Er mwyn i'r dosbarth gael y gorau o'r sesiwn, cofiwch:




- Gosodwch y camera fel ein bod ni'n gallu gweld y dosbarth cyfan
- Gwnewch yn siŵr bod y dosbarth cyfan yn gallu gweld a chlywed
- Meddyliwch am y ffordd orau i'r dosbarth holi ac ateb cwestiynau. Gallwch chi wneud hyn drwy'r athro, neu greu 'man siarad' lle gall y plant sefyll yn eu tro
- Bod yn bresennol a chyfrifol am y disgyblion trwy gydol y sesiwn a rheoli'r dosbarth
- Sicrhau bod eich cyfrifiadur ymlaen a bod y cysylltiadau yn gweithio 15 munud cyn y gweithdy. Bydd yr hwylusydd ar gael am 5/10 munud cyn y gweithdy i ateb cwestiynau'r athro.

**Bydd y ddolen Teams i ymuno â'r gweithdy yn yr e-bost cadarnhau.**

# Ar ôl y Gweithdy:

## Adeiladu nyth deinosor



Argraffwch a lliwiwch yr wyau deinosor hyn a gweithiwch mewn grwpiau i wneud nyth. Ydych chi'n *T. rex* brawychus neu'n alamosawrws ysgafn?

[https://amgueddfa.cymru/addysg/gweithgaredd/505/Creu-Nyth-Deinosor/](https://amgueddfa.cymru/addysg/gweithgaredd/505/Creu-Nyth-Deinosor/)


## Prynhawn y Plant Digidol: Deinosoriaid



Llawer o syniadau hwyliog, creadigol (ac weithiau blêr!) ar gyfer gweithgareddau y gellir eu mwynhau gartref neu yn yr ysgol!

[https://amgueddfa.cymru/addysg/gweithgaredd/445/Pryhawn-y-Plant-Digidol-Deinosoriaid/](https://amgueddfa.cymru/addysg/gweithgaredd/445/Pryhawn-y-Plant-Digidol-Deinosoriaid/)

## E-lyfr Ditectifs Deinosoriaid




Chwiliwch am ffosil deinosor, dysgwch am fwyd y deinosoriaid a rhyfeddwch at ba mor fawr oedd traed *T. rex* drwy gyfrwng gemau a posau. Mae'n gyfle hefyd i gwrdd â'r deinosor Cymreig newydd, *Dracoraptor hanigani*.

[https://amgueddfa.cymru/addysg/gweithgaredd/323/E-lyfr---Ditectifs-y-Deinosoriaid/](https://amgueddfa.cymru/addysg/gweithgaredd/323/E-lyfr---Ditectifs-y-Deinosoriaid/)

## 'Top Trumps' Deinosoriaid




Lawrlwythwch, printiwch a thorri cardiau 'Top Trumps' deinosoriaid am hwyl rarrrrgh-bennig!

[https://amgueddfa.cymru/addysg/gweithgaredd/407/Deinosoriaid-Yr-Amgueddfa/](https://amgueddfa.cymru/addysg/gweithgaredd/407/Deinosoriaid-Yr-Amgueddfa/)